Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Cyllid Pontio Ôl-16 ar gyfer Awdurdodau Lleol a sefydliadau addysg bellach

## Nodyn canllaw 2026/27

Fersiwn 1 2026/27:
Awst 2026

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English
**www.medr.cymru**

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

## Cynnwys


1. Cefndir ........ 3
2. Diben y cyllid ........ 3
3. Canlyniad ........ 4
4. Cynnwys y rhaglen ........ 4
   a) Dosbarthiadau chwech Awdurdodau Lleol ........ 4
   b) Sefydliadau addysg bellach ........ 4
5. Meini prawf ........ 5
   a) Awdurdodau Lleol ........ 5
   b) Sefydliadau addysg bellach ........ 5
6. Cyllido, monitro a gwerthuso ........ 5
7. Manylion Cyswllt ........ 6
8. Tabl Gwariant – Canllawiau Cwblhau ........ 7

# 1. Cefndir

Gan gyfeirio at ganllawiau Llywodraeth Cymru ar Bontio ôl-16 a rhannu data yn effeithiol (2019), dylai sefydliadau addysg bellach (SABau) ac ysgolion gydweithio i roi cyngor ac arweiniad i ddysgwyr ar lwybrau addysgol a nodau gyrfa.

Mae Estyn wedi argymell y byddai'n fwyaf buddiol i les pob dysgwr 16-19 oed petai pob dysgwr ym Mlynyddoedd 10 ac 11 yn cael gwybodaeth, cyngor ac arweiniad diduedd am yr holl opsiynau ôl-16 sydd ar gael yn eu hardal leol. Mae Estyn hefyd yn adrodd bod y berthynas rhwng ysgolion nad oes ganddynt chweched dosbarth ar wahân a SABau yn gryf yn gyffredinol, a bod gweithgareddau dilyniant a phontio fel arfer yn cael eu cydgynllunio'n helaeth ac mewn modd defnyddiol rhwng yr ysgolion hyn a SABau. Mae hyn yn helpu dysgwyr i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth o blith ystod eang o bynciau academaidd a chyrsiau galwedigaethol ac yna pontio'n ddidrafferth i gam nesaf eu dysgu.[1]

Mae dysgwyr yn elwa o ryngweithio rheolaidd â darparwyr ôl-16 lleol i ddysgu am y cyrsiau maen nhw'n eu cynnig a thrafod eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Profwyd bod trefniadau sy'n helpu dysgwyr i bontio'n llwyddiannus yn cynyddu cyfraddau cadw a symud ymlaen i addysg bellach a hyfforddiant ac, yn y pen draw, cyflogaeth gynaliadwy, yn sylweddol.[2] [3]

Fel y cyfryw, cytunwyd ar £3m ychwanegol o gyllid pontio dysgwyr ar gyfer Sefydliadau Addysg Bellach (SABau) ac ysgolion prif ffrwd sydd â chweched dosbarth ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27.

# 2. Diben y cyllid

**Diben y cyllid yw sicrhau bod dysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11 yn cael gwybodaeth, cyngor ac arweiniad diduedd am yr holl opsiynau ôl-16 sydd ar gael yn eu hardal leol.**

Dylai ysgolion ddefnyddio'r cyllid i weithio ar y cyd â Sefydliadau Addysg Bellach (SABau), Darparwyr Hyfforddiant Annibynnol, cyflogwyr a / neu unrhyw ddarpariaeth ôl-16 arall i gyflwyno gweithgareddau dilyniant a phontio.

Dylai SABau ddefnyddio'r cyllid i gydweithio ag ysgolion ac Awdurdodau Lleol (lle bo'n berthnasol) i roi cyngor ac arweiniad a darparu gweithgareddau dilyniant a phontio.

Dylai'r gweithgareddau a ariennir gynorthwyo dysgwyr i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth am eu llwybr ôl-16 a hwyluso pontio'n ddidrafferth ac yn effeithiol i'r ddarpariaeth o'u dewis. Mae'n rhaid i'r gweithgareddau hyn gael eu darparu cyn i'r dysgwr ddechrau ei lwybr ôl-16.

---

[1] Estyn: Adolygiad o'r cwricwlwm 16-19 presennol yng Nghymru
[2] Llywodraeth Cymru: Pontio Ôl-16 a Rhannu Data yn Effeithiol: Canllaw Byr i Ysgolion a Darparwyr Dysgu Ôl-16.
[3] Yr Adran Addysg a Sgiliau (DfES): Raising expectations: staying in education and training post-16

## 3. Canlyniad

Gall dysgwyr ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11 wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth am y cam nesaf ar eu llwybr addysgol, hyfforddiant neu gyflogaeth.

## 4. Cynnwys y rhaglen

### a) Dosbarthiadau chwech Awdurdodau Lleol

Mae enghreifftiau o dystiolaeth o ymgysylltu yn cynnwys:

- Dysgwyr Blwyddyn 10 neu Flwyddyn 11 yn mynd i SAB lleol, darparwr Hyfforddiant Annibynnol, neu unrhyw ddarpariaeth ôl-16 arall, lle maen nhw'n cael cyfle i ddysgu mwy am y gwahanol gymwysterau a llwybrau academaidd a galwedigaethol sydd ar gael.

- Dysgwyr Blwyddyn 10 neu Flwyddyn 11 yn mynd i SAB lleol i gymryd rhan mewn 'diwrnod blasu' i roi cynnig ar y pynciau o'u dewis mewn sesiwn flasu wedi'i theilwra.

- Dysgwyr Blwyddyn 11 yn cymryd rhan mewn rhaglen bontio haf sy'n caniatáu iddynt ddatblygu perthynas gadarnhaol â'u cyfoedion a staff y coleg.

- Dysgwyr Blwyddyn 10 neu 11 yn cymryd rhan mewn dosbarthiadau meistr neu weithdai rhyngweithiol penodol i bwnc gyda choleg, darparwr Hyfforddiant Annibynnol, neu unrhyw ddarpariaeth ôl-16 arall, sy'n eu cyflwyno i ystod eang o gymwysterau neu yrfaoedd.

- Cynrychiolwyr o SAB, darparwr Hyfforddiant Annibynnol, neu unrhyw ddarpariaeth ôl-16 arall yn ymweld â chweched dosbarth a darparu gwybodaeth am yr ystod o lwybrau a rhaglenni dysgu sydd ar gael trwy gyflwyniadau a phecynnau pontio.

- Dysgwyr Blwyddyn 10 neu Flwyddyn 11 yn mynd i ffair yrfaoedd.

### b) Sefydliadau addysg bellach

Mae enghreifftiau o dystiolaeth o ymgysylltu yn cynnwys:

- 'Diwrnodau blasu' coleg lle mae dysgwyr Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 yn cael cyfle i roi cynnig ar y pynciau o'u dewis mewn sesiwn flasu wedi'i theilwra.

- Dosbarthiadau meistr neu weithdai rhyngweithiol lle mae dysgwyr Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 yn cael cyfle i gymryd rhan mewn darlithiau byr neu weithdai rhyngweithiol penodol i bwnc sy'n cysylltu ag ystod eang o gymwysterau neu yrfaoedd yn y meysydd hyn.

- Rhaglenni pontio haf lle mae dysgwyr Blwyddyn 11 yn gallu cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau sy'n gysylltiedig â chyrsiau galwedigaethol ar yr un pryd â datblygu perthynas gadarnhaol â'u cyfoedion a staff y coleg.

## 5. Meini prawf

Mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol, ysgolion a SABau gydymffurfio â'r meini prawf yn y nodyn canllaw hwn.

### a) Awdurdodau Lleol

I fod yn gymwys ar gyfer y cyllid hwn, mae'n rhaid i ysgol gael ei chynnal gan awdurdod lleol, mae'n rhaid bod ganddi chweched dosbarth ac ni chaiff fod yn ysgol arbennig. (Mae ysgolion arbennig yn cael eu hariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru trwy drefniadau cyllido ar wahân).

Dylai ysgolion sicrhau:

- Bod y cyllid yn cefnogi pob dysgwr, ac na roddir blaenoriaeth na phwys i unrhyw lwybr unigol.
- Bod y gweithgareddau a'r mentrau yn ystyried dewis iaith dysgwr (naill ai Cymraeg neu Saesneg) a'i iaith dysgu.
- Er y gellir defnyddio'r cyllid i ymgysylltu ag ysgolion eraill sydd â Chweched Dosbarth, **mae'n rhaid dangos tystiolaeth o ymgysylltu â darpariaeth y tu allan i'r amgylchedd ysgol i fod yn gymwys ar gyfer y cyllid**.

### b) Sefydliadau addysg bellach

Dylai sefydliadau addysg bellach sicrhau:

- Bod cydweithio rhwng ysgolion, awdurdodau lleol (lle bo'n berthnasol) a SABau.
- Bod y cyllid yn cefnogi pob dysgwr, ni waeth ble mae'n derbyn ei addysg, ac na roddir blaenoriaeth na phwys i unrhyw lwybr unigol.
- Bod y gweithgareddau a'r mentrau yn ystyried dewis iaith dysgwr (naill ai Cymraeg neu Saesneg) a'i iaith dysgu.

**Prentisiaid Iau**

Caiff sefydliadau addysg bellach (SABau) ddefnyddio'r cyllid hwn i sicrhau bod Prentisiaid Iau sydd wedi cofrestru gyda nhw yn gallu cael at weithgareddau pontio sy'n cyfateb i'r rhai sydd ar gael i ddysgwyr mewn ysgolion. Bydd hyn yn helpu Prentisiaid Iau i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am eu llwybrau dilyniant ôl-16 a chyfleoedd dysgu yn y dyfodol.

## 6. Cyllido, monitro a gwerthuso

Mae dyraniadau cyllid ar gyfer Cyllid Pontio Ôl-16 2026/27 ar gael yn: [Medr/2026/39: Cyllid Ychwanegol ar gyfer Cyllid Pontio Ôl-16 2026-27].

Cyfrifir dyraniadau cyllid ar gyfer awdurdodau lleol ar sail £6,000 fesul ysgol a gynhelir sydd â chweched dosbarth, ac eithrio ysgolion arbennig. I fod yn gymwys ar gyfer cyllid, mae'n rhaid i ysgolion ddarparu tystiolaeth o gymryd rhan yn y rhaglen. Er bod y fethodoleg ddyrannu wedi'i seilio ar gyfradd o £6,000 ar gyfer pob ysgol sy'n gymwys ac yn cymryd rhan, caiff awdurdodau lleol bennu sut mae'r cyllid yn cael ei ddosbarthu ymhlith ysgolion cymwys yn eu hardaloedd unigol.

Bydd y grant hwn yn cael ei dalu'n llawn ym mis Rhagfyr 2026 ar gyfer y cyfnod 1 Tachwedd 2026 i 31 Awst 2027. Dylai'r holl wariant cymeradwy gael ei gwblhau erbyn 31 Awst 2027.

Bydd monitro ac archwilio yn cyfrannu at sicrhau bod y canllawiau'n cael eu cymhwyso'n gyson ac yn helpu i asesu p'un a yw polisïau, gweithdrefnau a rheolaethau'n ddigonol. Trwy dderbyn y cyllid hwn, rydych yn cytuno i gydymffurfio â'r gofynion monitro isod. Rydych hefyd yn cytuno i ymgysylltu ag unrhyw weithgarwch monitro a gwerthuso ychwanegol a gomisiynir gan Medr mewn perthynas â'r cyllid hwn.

### Gofynion monitro

Mae'n **rhaid** i chi lenwi **pob rhan o'r Ffurflen Fonitro** (a gyflenwir ar wahân fel dogfen Excel), gan gynnwys y **tabl gwariant**, pob un o'r **cwestiynau monitro a gwerthuso** a **Thystysgrif Gwariant wedi'i llofnodi**, a chyflwyno'r rhain erbyn **30 Medi 2027**. Os na chyflwynir y dogfennau sy'n ofynnol erbyn y dyddiad cau hwn, fe allai'r cyllid grant gael ei adennill.

Cyfeiriwch at y **canllawiau cwblhau** yn adran 8 y ddogfen hon i gael arweiniad ar gwblhau'r Tabl Gwariant**.**

Mae **Templed Astudiaeth Achos** ar gael, hefyd. Er nad oes rhaid cwblhau'r templed hwn, fe'ch anogwn yn gryf i ddarparu astudiaeth achos oherwydd bydd hyn yn ein galluogi i rannu enghreifftiau o arfer da, dathlu canlyniadau llwyddiannus, a dangos effaith y Cyllid Pontio. Dylid cyflwyno astudiaethau achos wedi'u cwblhau erbyn **30 Medi 2027**.

Caiff Awdurdodau Lleol a SABau ddewis cadw hyd at 3% o'r hawliad cyffredinol i dalu am gostau sy'n gysylltiedig â gweinyddu'r grant hwn. Dylai unrhyw swm a gedwir gael ei nodi'n glir yn y tabl gwariant.

Pan fydd y gwariant yn llai na 100% o'r dyraniad, bydd y danddarpariaeth yn cael ei hadennill yn llawn.

## 7. Manylion cyswllt

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â chynnwys y canllawiau hyn, cysylltwch â Medr trwy BuddsoddiadaMonitro@medr.cymru.

## 8. Tabl Gwariant – Canllawiau Cwblhau

**Canllawiau cwblhau'r tabl gwariant**

| | |
|---|---|
| **Defnydd o gyllid** | Defnyddiwch y gwymplen i ddewis y math o weithgarwch. Darparwch wybodaeth ychwanegol yn y blwch Sylwadau. |
| **Cyllid / Gwariant (£)** | Rhowch ffigur i ddangos faint o gyllid a ddefnyddiwyd i alluogi pob math gwahanol o weithgarwch.<br>Cofnodwch y ffigur mewn fformat £. |
| **Brasamcan o nifer y buddiolwyr unigryw ym mlynyddoedd 10 ac 11** | Yn dibynnu ar y cyd-destun, mae'n dderbyniol rhoi amcangyfrif yma (mewn achosion o'r fath, nodwch hyn yn y golofn sylwadau). Os oes modd, cyfrwch unigolion sy'n elwa'n uniongyrchol o'r cyllid neu sydd wedi elwa ohono'n uniongyrchol, yn hytrach na'r rhai a allai fod wedi elwa ohono o bosibl. Yn ogystal, at ddibenion y tabl hwn, nid oes angen cynnwys buddiolwyr anuniongyrchol. Gellir amlygu buddiolwyr anuniongyrchol yn y golofn sylwadau, os yw'n briodol. Cofnodwch mewn fformat rhif. |
| **Brasamcan o nifer y buddiolwyr fel % o'r garfan gyfan** | Pan fyddwch yn cyfrifo'r ganran hon, tybiwch fod y 'garfan gyfan' yn cynnwys nifer y dysgwyr 16-19 oed unigryw a ariennir gan Medr yn y darparwr. |
| **Graddio effaith y gwariant ar raddfa o 1 i 10** | 1. Roedd yr effaith yn **negyddol iawn**, a chafodd y gweithgarwch neu'r cyllid effaith andwyol yn gyffredinol; h.y. gwneud pethau'n waeth na phe na byddai'r cyllid wedi cael ei wario<br>2. Effaith **ychydig yn negyddol** yn gyffredinol<br>3. Roedd yr effaith yn **niwtral** yn gyffredinol h.y., ni chafwyd budd net at ei gilydd o ganlyniad i'r gwariant<br>4. **Ychydig** o fudd yn gyffredinol<br>5. Budd **gweddol** yn gyffredinol<br>6. Budd **digonol** yn gyffredinol<br>7. Budd **da** yn gyffredinol<br>8. Budd **da iawn** yn gyffredinol<br>9. Budd **rhagorol** yn gyffredinol sy'n haeddu cael ei ddadansoddi ymhellach a'i amlygu'n genedlaethol<br>10. Budd **eithriadol** yn gyffredinol sy'n haeddu cael ei ddadansoddi ymhellach a'i amlygu'n genedlaethol |
| **Sylwadau** | Defnyddiwch y golofn hon i ddarparu unrhyw wybodaeth gyd-destunol ychwanegol sy'n rhoi dealltwriaeth well o'r wybodaeth a gofnodwyd yn y tabl. |

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government